# Gwneud Mosaig

Yn ôl yr hanes, mae rhai pobl wedi gweld gweddillion mosaig gerllaw Caer Rufeinig Gelligaer. Os yw hyn yn wir, dydy'r mosaig ddim i'w gael yno erbyn heddiw. Fel arfer roedd pobl yn defnyddio mosaig i addurno cartrefi preifat ac adeiladau swyddogol crand.

Yn gyntaf roedd yn rhaid cynllunio'r mosaig, yna byddent yn rhoi plastr gwlyb dros ran o'r llawr. Byddent yn gwasgu sgwariau bach o deils, gwydr neu garreg i mewn i'r plastr i greu'r patrwm. Pan fyddai'r plaster wedi sychu, byddai'n dal y llun yn ei le.

Cynlluniwch fosaig yn y grid isod. Mae croeso i chi ddefnyddio dim ond hanner sgwâr os byddwch angen. Ar y dudalen nesaf mae llun o fosaig modern yng Ngelligaer allai eich helpu.

Gallwch wneud eich mosaig eich hun gan ddefnyddio clai sy'n sychu yn yr aer a theils bach, ond os nad oes gennych y pethau yma, gallwch greu mosaig ar gerdyn.

Cymerwch ddarn o gerdyn ac amlinellwch eich cynllun yn ysgafn arno. Yna byddwch angen ychydig bach o baent. Dylech ddefnyddio stampiau sgwar bychain ond gallwch ddefnyddio blaenau eich bysedd os dewiswch! Os ydych eisiau siapiau mwy rheolaidd, mae glain (*bead*) bach sgwar yn gweithio'n dda hefyd.

Yn gyntaf, gwnewch y border o amgylch yr ymylon drwy roi eich bys yn y lliw cyntaf a'i wasgu'n ysgafn lle'r ydych eisiau i'r 'teil' fod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn golchi eich bys cyn newid lliw.

Pan fyddwch wedi gorffen y border, gwewch yr un peth i adeiladu eich cynllun.

Roedd rhai o'r moseigiau Rhufeinig yn cynnwys geiriau e.e. "Caveat Canis" – "Gwyliwch Rhag y Ci". Roedd eraill yn dangos anifeiliaid y môr, bwydydd, duwiau a dim ond patrymau, felly mae digon o ddewis i chi.

